Hawdd ei Ddeall

# Newidiadau i Ysbyty Gorseinon

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ymgysylltu â'r Cyhoedd O 7 Medi tan 26 Hydref 2026: Cynigion ar gyfer Ysbyty Gorseinon.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** Dweud eich dweud - Dyfodol Ysbyty Gorseinon - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Ebost:** BIPBA.ymgysylltu@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 01639 683 355

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

# Cynnwys

**Beth rydyn ni'n gofyn i bobl amdano** ........ 4

**Pam bod y gwelyau wedi cael eu symud** ........ 8

**Pam rydyn ni eisiau cadw'r gwelyau yn Singleton** ........ 13

**Beth fyddai'n digwydd yn Ysbyty Gorseinon** ........ 22

**Manteision** ........ 25

**Heriau** ........ 28

**Beth ydych chi'n feddwl?** ........ 30

# Beth rydyn ni’n gofyn i bobl amdano



Ni ydy **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**.



Rydyn ni’n rhedeg eich Gwasanaethau GIG lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe.



Rydyn ni’n gofyn beth rydych chi’n feddwl am gadw 30 **o welyau cleifion mewnol** yn Ysbyty Singleton.



Mae gwelyau **cleifion mewnol yn welyau** i gleifion sydd angen aros yn yr ysbyty dros nos.



Yn 2025 fe wnaethon ni symud 30 **o welyau cleifion mewnol** o Ysbyty Gorseinon i Ysbyty Singleton.



Roedd hwn yn symudiad tymor byr. Rydyn ni nawr eisiau cadw'r 30 gwely yn Singleton.



Mae cleifion o bob rhan o Abertawe ac weithiau Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio'r gwelyau yma. Felly mae'r newidiadau yma yn gallu effeithio arnyn nhw.



Mae’r gwelyau yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion sydd ddim angen gofal ysbyty llawn. Ond dydyn nhw ddim yn ddigon da i fynd adref.



Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi am hyn.



Rydyn ni hefyd eisiau eich syniadau am wasanaethau yn Gorseinon.

Mae gennym ni lawer o wasanaethau cymunedol yno, fel:



- Profion gwaed



- Gwasanaethau calon
- Gwasanaethau Coluddyn a'r Bledren



- Ffisiotherapi
- Clinig strôc




Ond rydyn ni eisiau gwybod eich syniadau ar gyfer gwasanaethau eraill ddylai fod yn Ysbyty Gorseinon.



Darllenwch y ddogfen yma, yna anfonwch beth rydych chi'n feddwl i ni.

# Pam bod y gwelyau wedi cael eu symud



Roedd angen i ni symud y gwelyau allan o Ysbyty Gorseinon yn gyflym.



Roedd pryderon difrifol yn Ysbyty Gorseinon am:

**Diogelwch cleifion a staff**



- Doedd dim digon o gymorth meddygol. Yn enwedig yn y nos ac ar benwythnosau.



- Aeth rhai cleifion yn fwy sâl. Doedd hyn ddim bob amser yn cael ei weld yn ddigon cyflym.



- Roedd cleifion sâl yn cael eu hanfon yno. Ond doedd dim digon o staff neu gymorth meddygol ychwanegol.

## Staff



- Roedd y staff yn sâl ac i ffwrdd o'r gwaith yn aml.



- Doedd y staff ddim yn hapus yn y gwaith.



- Weithiau doedd dim digon o staff i ddarparu lefel ddiogel o ofal.

## Arweinwyr a Rheolwyr



- Roedd staff yn teimlo nad oedd eu pryderon bob amser yn cael eu trin yn dda.



- Roedd rhai staff yn teimlo nad oedden nhw’n cael digon o gefnogaeth.

## Amgylchedd gwaith



- Roedd adroddiadau gan staff am fwlio ac ymddygiad gwael.



- Doedd e ddim  yn lle braf i weithio.

## Adeiladau a diogelwch




- Doedd dim digon o ddiogelwch. Fel drysau wedi'u cloi a staff yn gwirio'r safle.



- Roedd cynllun y ward yn ei gwneud hi'n anodd i staff weld yr holl gleifion.

# Pam rydyn ni eisiau cadw'r gwelyau yn Singleton



**Ers symud y gwelyau, mae gofal wedi gwella i gleifion:**




- Mae ganddyn nhw gymorth meddygol drwy'r dydd, bob dydd.



- Maen nhw'n cael eu trin yn gyflymach pan fyddan nhw'n mynd yn fwy sâl.



- Mae uwch nyrsys yn gwylio dros y gofal a’r gefnogaeth sydd yn cael ei roi.



- Mae staff yn cael eu rheoli’n well.



- Mae pethau’n rhedeg yn well.

**Fe wnaeth archwiliad annisgwyl o'r gwelyau yma yn Ysbyty Singleton ddarganfod:**



- Dywedodd cleifion fod eu gofal naill ai'n dda neu'n dda iawn.



- Dywedodd cleifion fod staff yn garedig, gofalgar a pharchus.



- Roedd staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu'r gofal angenrheidiol.



- Mae cleifion yn cael eu gwirio am bethau fel briwiau gwely ac yn cael digon o fwyd a dŵr.

**Mae llawer mwy o gefnogaeth ar y ward yn Singleton:**



- Uwch nyrsys bob dydd.



- Cyfarfodydd staff a sesiynau cymorth.



- Nyrsys ar y ward sy'n gallu darparu hyfforddiant a chefnogaeth.



- Hyfforddiant i staff am waith papur, diogelwch, gofal croen, a stopio briwiau gwely.




- Gofal arbenigol ar gyfer problemau croen fel briwiau gwely.



- Mae problemau'n cael eu gwirio a'u trin.

**Mae yna rai pethau sydd angen eu gwella o hyd, fel:**



- Ateb clychau galwadau cleifion.



- Cefnogi cleifion i fynd i'r toiled.



- Urddas a phreifatrwydd cleifion.



- Gwybodaeth am gleifion.



- Sut mae meddyginiaethau yn cael eu storio.



- Gwaith papur.



Ar y dechrau roedd staff yn cymryd llai o ddiwrnodau salwch. Ond maen nhw nawr wedi mynd i fyny eto.



Mae angen i Ysbyty Singleton ddefnyddio rhai staff dros dro i gadw'r ward yn ddiogel. Ond maen nhw'n defnyddio llai nawr ac yn arbed arian.




Fe wnaethon ni roi mwy o arweinwyr a chynlluniau gweithredu ar waith yn gynnar. Roedd hyn wedi gwneud gwahaniaeth.



Fe fyddwn ni'n parhau i wirio a chefnogi'r ward.



Mae gennym ni bobl sy’n gallu rheoli’r ward yn dda nawr. A gwneud y gwelliannau sydd eu hangen.



Rydyn ni’n meddwl y gallai symud y gwelyau yn ôl i Gorseinon beryglu’r gwelliannau rydyn ni wedi’u gwneud.



Fe fyddai angen i ni ddod o hyd i arian ychwanegol nad oes gennym ni, i symud y gwelyau yn ôl i Gorseinon.

# Beth fyddai'n digwydd yn Ysbyty Gorseinon



Fyddai yna ddim gwelyau cleifion mewnol yn Ysbyty Gorseinon.



Fe fyddai'n dod yn ganolfan iechyd cymunedol.




Fe fyddwn ni'n cadw'r gwasanaethau yno, fel profion gwaed a ffisiotherapi.

Fe fyddwn ni'n ychwanegu mwy, fel:



- **Sgrinio Aneurysm Aortig Abdomenol** – Prawf i wirio chwyddo peryglus yn eich prif bibell waed.



- Clinigau'r Galon a mwy o **Glinigau Pacemaker** – gwirio dyfeisiau wedi'u gosod y tu mewn i'r galon.



- Seicoleg




- Gwasanaethau Iechyd Plant



- Gwasanaethau bydwraig – i fenywod feichiog.



- Adsefydlu Ysgyfaint – cefnogi pobl â chlefyd yr ysgyfaint.




- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol



Rydyn ni wedi defnyddio'r gofod sydd wedi cael ei ryddhau trwy symud y gwelyau ar gyfer rhai o'r gwasanaethau yma yn barod. Rydyn ni eisiau eu cadw yno.

# Manteisio



Rydyn ni'n gallu darparu mwy o wasanaethau cymunedol yng Ngorseinon.



Fe fyddai pobl yng Ngorllewin Abertawe yn gallu cael gofal yn agosach at adref.



Mae gofal yn cael ei wella i gleifion. Mae cleifion a theuluoedd yn cael eu trin yn well. Mae problemau yn cael eu trin yn gyflym ac yn dda.



Rydyn ni’n defnyddio llai o nyrsys dros dro.
Mae cleifion yn gallu gweld yr un staff trwy gydol eu triniaeth.



Mae gan staff fwy o oruchwyliaeth a hyfforddiant sgiliau yn Singleton.



Mae Singleton yn fwy diogel gyda’r nos a phenwythnosau.



Rydyn ni’n gallu darparu gofal mwy diogel yn Singleton ar gost rydyn ni’n gallu ei fforddio.



Mae cadw’r gwelyau yn Singleton yn arbed arian.



Mae’r ward yn Singleton yn well ar gyfer gwelyau cleifion mewnol. Mae pobl yn fwy cyfforddus ac yn fwy diogel.

# Heriau



Mae pobl yn poeni am ddyfodol Ysbyty Gorseinon. Ond dylai cael mwy o wasanaethau cymunedol yno ei sefydlu fel sylfaen bwysig.



I rai cleifion yn Abertawe, mae Singleton ymhellach i ffwrdd. Os ydyn nhw yn yr ysbyty dros nos, fe fyddan nhw ymhellach i ffwrdd oddi wrth deulu ac ymwelwyr eraill.



Mae parcio yn anoddach yn Singleton nag yn Gorseinon.



Fe fydd rhai staff yn gweithio mewn lle gwahanol nag o’r blaen.



Fe fydd staff yn cael y dewis i symud i swyddi eraill lle mae angen. Ni fydd unrhyw staff yn colli eu swyddi.




Weithiau roedd y gwelyau yng Ngorseinon yn cael eu defnyddio pan oedd Ysbyty Treforys yn rhy brysur.



Roedd hyn yn meddwl bod Treforys yn gallu trin mwy o bobl. Ond roedd cleifion yn cael gofal mewn cyfleusterau gwael ac roedd angen mwy o staff dros dro.

# Beth ydych chi’n feddwl?



Mae’n bwysig ein bod yn cael cymaint o farn â phosibl.




Rydych chi’n gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl rhwng **dydd Mawrth 7 Medi a dydd Llun 26 Hydref 2026.**



Fe fyddwn ni hefyd yn edrych I weld os ydy’r newidiadau yma yn annheg i wahanol grwpiau o bobl.

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Fe fyddwn ni’n gweithio gyda Llais i feddwl am farn pawb a gwneud penderfyniadau.

**Rydych chi'n gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl trwy:**




Llenwi'r ffurflen ymateb hawdd ei ddeall.



**Ysgrifennu at:**

Prif Weithredwr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Un Porth Talbot

Baglan

SA12 7BR



**Anfon e-bost i ni:** BIPBA.ymgysylltu@wales.nhs.uk



**Ffonio a gadael neges:**

01639 683 355

**Anfon neges i ni ar Facebook:** Swansea Bay NHS

**Anfon neges i ni ar X (Twitter):** @SwanseabayNHS

**Neu rydych chi'n gallu siarad â Llais drwy:**



**Ysgrifennu atyn nhw:**

Llais Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

Trydydd Llawr

Canolfan Arloesi Bae Baglan

Rhodfa Ganolog

Port Talbot

SA12 7AX



**Anfon e-bost atyn nhw**:
ymholiadau.cnptacabertawe@llaiscymru.org

# Gwahanol fformatau




Rydych chi'n gallu cael y ddogfen yma mewn fformatau eraill, fel Print Bras ac Iaith Arwyddion Prydain:




**Gwefan:** [Dweud eich dweud - Dyfodol Ysbyty Gorseinon - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe]

Neu cysylltwch â ni i ofyn:



**Ffôn:** 01639 683 355



**Ebost:** BIPBA.ymgysylltu@wales.nhs.uk

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247